**PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH**
**PRIFYSGOL BANGOR**

**Cyfarfod:** 20 Mai 2015

**Presennol:** Yr Athro P Spencer (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr H Ellis, Mr D Fordham, Mrs L Fowlie, Mr A Jones, Dr Ll Jones, Mr W Jones, Mrs M Lake, Dr J Latchford, Mrs L Meadows, Dr K Mundy, Mr D Owen, Mrs E Parry Williams, Ms E Riches, Dr H Roberts, Mr S Roberts, Yr Athro C Tully, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau:** Yr Athro John Hughes, Mrs S Barbaresi, Mr R Dart, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mr G Parry, Yr Athro D Shepherd.

**461. Nodiadau Cyn y Cyfarfod:**

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Rhys Dart, Cyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr am ei gefnogaeth i iechyd a diogelwch ac am berfformiad Undeb y Myfyrwyr o dan ei arweiniad, a dymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd. Penodwyd Mr Dylan Williams yn Gyfarwyddwr newydd Undeb y Myfyrwyr.

**462. COFNODION**

Cymerwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2015, wedi'u darllen, eu cadarnhau a'u llofnodi.

**463. MATERION YN CODI**

a) Cofnod 454 (b) Marwolaeth Drasig Ian Nicholls:
Mae'r Hawliad Sifil i'r digwyddiad yn parhau.

b) Cofnod 454 (d) Gynnau a Gynnau Ffug ar Eiddo'r Brifysgol:
Mae Rheoliadau'r Neuaddau Preswyl wedi cael eu diwygio i gynnwys dulliau gweithredu cliriach i staff Diogelwch wrth ymdrin ag arfau ffug neu arfau a amheuir.

c) Cofnod 454(e) Canllawiau i Aelodau'r Cyngor a Deoniaid Colegau:
Yn dilyn eu cyfieithu caiff y Canllawiau eu cyhoeddi yn haf 2015.

d) Cofnod 454 (f) Coleg Bangor yn Tsiena:
Cynhaliwyd cyfarfod gyda Dirprwy-Ddeon y Coleg, a benodwyd yn ddiweddar. Caiff y Llawlyfr Staff, a ddatblygwyd i roi arweiniad cyffredinol i staff Prifysgol Bangor sy'n gweithio yn Tsieina, ei gwblhau mewn pryd ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2015-16.

e) Cofnod 455 (i) Radon:
Ni chafwyd unrhyw ganlyniadau peryglus o'r mesuriadau a gymerwyd Hydref 2014 - Ionawr 2015.

f) Cofnod 455 (iii) Bathodynnau Dosimetreg 32P:
Nid yw achos y darlleniadau cadarnhaol anghywir ar y bathodynnau wedi cael ei ganfod. Ers y digwyddiad hwn ni i fu unrhyw ganlyniadau cadarnhaol anghywir pellach. Caiff y mater ei fonitro gan Swyddog Diogelwch Ymbelydredd y Brifysgol.

g) Cofnod 456 (vi) Bioleg Synthetig:
Mae'r Swyddog Diogelwch Biolegol yn cadw golwg fanwl i sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith wrth i'r project ddatblygu.

h) Cofnod 459 Diwygio'r Polisi Iechyd a Diogelwch:

Ffurfiwyd Gweithgor i gynnal yr adolygiad 5 mlynedd o Bolisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd i'r Cyngor a chytunwyd ymgorffori elfennau y gellid eu defnyddio o Ganllawiau drafft UCEA ar reoli iechyd a diogelwch i Bolisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol. Mae dadansoddiad bwlch yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i gymharu'r ddwy ddogfen. Caiff y gwaith hwn ei adolygu gan y Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch cyn cyflwyno mwy o newidiadau i'r polisi.

## 464. POLISÏAU, ARCHWILIADAU AC ADRODDIADAU

## 464(a). ADRODDIAD IECHYD A DIOGELWCH BLYNYDDOL Y BRIFYSGOL

Rhoddwyd crynodeb o Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2014. Adroddwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

i. ***Damweiniau a Digwyddiadau:*** Adroddwyd am 47 o ddamweiniau a arweiniodd at anafiadau (adroddwyd am 61 yn 2013); roedd 36 o'r damweiniau yn ymwneud â staff ac 11 yn ymwneud â myfyrwyr. Cymerodd 8 aelod staff 1 diwrnod neu fwy o'r gwaith o ganlyniad i'w hanaf. Prif achosion damweiniau o hyd yw trafod llwythi a llithro, baglu a syrthio. Cafwyd 8 digwyddiad lle bu angen dilyn trefn adrodd RIDDOR yn 2014.

ii. ***Absenoldeb Salwch:*** Cofnodwyd 4.7 o ddiwrnodau absenoldeb salwch fesul aelod staff CALl yn 2014. Cofnodwyd 94 achos o Absenoldeb Salwch Tymor Hir, pan fo aelod staff yn cymryd mwy na 4 wythnos o'r gwaith. Achosion Cyhyrysgerbydol a Seicolegol sy'n parhau'n ddau brif achos absenoldebau tymor hir ac absenoldebau a ardystiwyd yn feddygol yn y Brifysgol. Mae ymchwiliad pellach yn parhau i achosion posib dros y cynnydd. **GWEITHREDU: Gwasanaethau IaD**

iii. ***Archwiliad Iechyd:*** Cafodd dros 180 o staff (gweithwyr llaw, cemegwyr ymchwil a staff technegol, gweithwyr ar shifftiau, rhai sy'n trin a thrafod bwyd, gyrwyr ar gontract, gweithwyr tiroedd a staff treialon ymchwil) archwiliad iechyd blynyddol i gefnogi eu hiechyd a chadarnhau nad yw eu gwaith yn achosi niwed iddynt.

iv. ***Larymau Tân yn Canu:*** Bu gostyngiad yn y cyfanswm nifer o achosion i 122; gostyngiad o 59 i 42 mewn Adeiladau Gweinyddol/Academaidd ac ychydig o gynnydd yn nifer yr achosion yn y neuaddau preswyl o 70 i 80.

v. ***Tanau:*** Cafwyd pedwar achos o ddigwyddiadau preswyl wrth goginio ac un tân bychan mewn Adeilad Academaidd / Gweinyddol a ddiffinnir yn ôl y meini prawf adrodd fel tân bychan. Roedd y tân mewn Adeilad Academaidd / Gweinyddol yn ymwneud â system cyflenwad pŵer di-dor (UPS) newydd y canfuwyd yn ddiweddarach ei bod yn ddiffygiol.

vi. ***Camau Gorfodi:*** Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn y Brifysgol yn 2014.

vii. ***Hawliadau Sifil (Cysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch):*** Gwnaed tri Hawliad Atebolrwydd Cyhoeddus a dau Hawliad Atebolrwydd y Cyflogwr yn 2014.

viii. ***Hyfforddiant Staff:*** Yn 2014 mynychodd 579 o staff gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd gan neu drwy'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, gyda llawer mwy o gyrsiau hyfforddi'n cael eu darparu'n lleol ond heb eu cofnodi'n ganolog. Nodwyd yr angen i gadw cofnodion yn fwy holistaidd. **GWEITHREDU: Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch**

ix. ***Monitro Safleoedd Contractwyr:*** Ymgymerodd y Tîm Ystadau a Chyfleusterau â 223 Archwiliad Monitro Safle contractwyr yn 2014. Canfuwyd bod 87% ohonynt o safon uchel, bu angen rhoi rhybudd yn achos 9% ac yn achos 4% pennwyd bod enghreifftiau o dorri safonau gwaith yn ddifrifol. Mae gwaith pellach yn parhau yn y maes hwn i

adlewyrchu'r newid mewn deddfwriaeth. **GWEITHREDU: Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch/Ystadau a Chyfleusterau**

x. ***Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol:*** Diweddarwyd yr Asesiad Risg ar lefel Brifysgol hwn unwaith eto yn 2014; mae'n ystyried dros 50 o feysydd risg sylweddol a/neu drwy'r Brifysgol ac yn helpu i gyfeirio'r agenda gwaith. Roedd y gwelliannau'n adlewyrchu cynnydd / newidiadau i broffil risg. Dylid nodi y caiff Arddangoswyr Perfformiad Allweddol pellach eu datblygu dros y misoedd i ddod i alluogi gwelliannau wrth feincnodi. **GWEITHREDU: Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch / Gwasanaethau IaD**

xi. ***Asesiadau Risg IaD Coleg / Adran:*** Mae adolygiad o'r dogfennau hyn sy'n manylu trefniadau rheoli iechyd a diogelwch penodol yn y Colegau / Adrannau er mwyn cydymffurfio â gofynion gwahanol Bolisïau a Dulliau Gweithredu Iechyd a Diogelwch y Brifysgol wedi cael ei gwblhau ac mae camau gweithredu wedi eu nodi. Caiff adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ei ddarparu maes o law. **GWEITHREDU: Gwasanaethau IaD**

xii. ***NWWHSG:*** Derbyniodd ymdrechion y Grŵp Iechyd a Diogelwch busnes a chymuned rhanbarthol gydnabyddiaeth unwaith eto gan y Corff Cenedlaethol 'Safety Groups UK' gan ennill Gwobr Arian am gefnogi cyflogwyr lleol a chodi ymwybyddiaeth am iechyd a diogelwch yn gyffredinol.

xiii. ***Wythnos Byw'n Iach:*** Cynigiwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau ar y cyd rhwng staff a myfyrwyr dros yr wythnos i herio pobl i ganfod a mabwysiadu ffordd o fyw mwy iach.

xiv. ***Project Byw'n Dda, Gweithio'n Dda Llywodraeth Cymru:*** Recriwtiwyd nifer o arweinwyr staff a myfyrwyr i weithio ar y Project hwn a buont yn cymryd rhan mewn Her Teithio Prifysgol ym mis Hydref a Thachwedd yn erbyn pedair prifysgol arall. Gorffennodd Prifysgol Bangor ar y brig gan guro'r sefydliadau eraill o Gymru.

xv. ***Diwrnod Dim Smygu:*** Ymunodd "The Filter", cangen ieuenctid *Ash* Cymru â'r Brifysgol i helpu hyrwyddo'r ymgyrch 'Dim Smygu dros Gymru' fel rhan o Ddiwrnod Cenedlaethol Dim Smygu.

xvi. ***Mannau Arlwyo:*** Mae gan holl fannau arlwyo cofrestredig y Brifysgol Sgôr Hylendid Bwyd o 5 seren. Nodwyd y cyrhaeddiad clodwiw hwn ac awgrymwyd y gellid rhoi mwy o sylw iddo ar draws y sefydliad.

**464(b). ADOLYGIAD O DDIOGELWCH BYSIAU MINI**

Rhoddwyd crynodeb o'r Adolygiad Iechyd a Diogelwch Bysiau Mini a asesai gydymffurfiad â gofynion Safon Polisi Diogelwch Bysiau Mini'r Brifysgol. Nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

i. *Cymhwysedd Gyrwyr:* Roedd ymron i bob un o'r 115 o aelodau staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr a enwyd fel gyrwyr bws mini yn ystod cyfnod yr Arolwg wedi derbyn Hyfforddiant Gyrrwr Bws Mini MIDAS.

ii. *Trwyddedau Bws Bach:* Nid oedd gan nifer o Ysgolion/Adrannau a oedd yn defnyddio bysiau mini dros gyfnod yr arolwg Drwydded Bws Bach. Mae angen gweithredu i wella'r elfen hon o gydymffurfio technegol â'r ddeddfwriaeth a'r dulliau gweithredu perthnasol.

iii. *Gofynion Yswiriant:*

   a. *Gwiriadau Blynyddol Trwyddedau Gyrru:* Mae'n glir bod Colegau/Ysgolion/Adrannau yn cael anhawster asesu Trwyddedau Gyrwyr yn flynyddol. Disgwylir y bydd y broses hon hyd yn oed yn fwy anodd pan gyflwynir newidiadau arfaethedig y DVLA a fydd yn dod â'r defnydd o gyfran bapur y drwydded yrru i ben.

   b. *Gwybodaeth sydd ar gael:* Nid yw'r system bresennol o reoli gwybodaeth ar yswiriant a

llogi cerbydau'n cynnig ffordd hawdd o archwilio a monitro, ac mae croeswirio yn arbennig o broblemus.

Yn dilyn yr Arolwg caiff nodyn atgoffa ynglŷn â diogelwch bysiau mini a gofynion cyffredinol gyrwyr/cerbydau ei anfon at Golegau / Ysgolion / Adrannau.

Mae trafodaethau i'w cynnal hefyd gyda'r Adran Gyllid i ganfod sut y gellir gwella eu systemau i gefnogi gofynion Polisi. Bydd hyn yn cynnwys, yng ngoleuni newidiadau'r DVLA, adolygiad o'r angen presennol i gynnal gwiriad blynyddol o drwyddedau gyrru'r sawl sy'n gyrru ar fusnes yn ymwneud â'r Brifysgol. **GWEITHREDU: Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch /Cyllid /Gwasanaethau IaD**

Yna caiff dyddiadau cwblhau eu pennu ar gyfer yr holl gamau gweithredu a nodir yn yr Adroddiad Adolygu.

## 464(c). ADOLYGIAD O DDIOGELWCH OFFER TRYDANOL

Rhoddwyd amlinelliad o'r Adolygiad i asesu lefel cyffredinol cydymffurfiad Colegau ac Adrannau â'r Safon Polisi Diogelwch Offer Trydanol. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

i. Cafwyd cynnydd sylweddol o ran lefel yr archwiliadau ffurfiol gweledol a phrofion (Profion PAT) o declynnau trydanol cludadwy, a'r broses o gadw cofnodion cysylltiedig, ers Adolygiad Diogelwch Offer Trydanol 2008.

ii. *Adrannau:* Gwelwyd gwelliannau sylweddol ar draws y rhan fwyaf o Adrannau; dim ond Adrannau bach iawn sydd heb roi system mewn lle.

iii. *Colegau:* Mae systemau da blaenorol wedi cael eu gwella ymhellach mewn dau Goleg, gyda thraean â threfniadau da mewn lle yn y rhan fwyaf o Ysgolion ond gwendid o ran monitro canolog ac o fewn rhai sefydliadau.

iv. O'r ddau Goleg sy'n weddill, bydd un ohonynt yn ymgymryd â gwaith sylweddol dros yr haf i fynd i'r afael â meysydd lle mae angen gweithredu. Nid yw'r Coleg arall wedi cwblhau cynllun hyd yma.

Darperir adroddiad o'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd maes o law. **GWEITHREDU: Gwasanaethau IaD**

## 465. GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH

Rhoddwyd crynodeb o waith y Grŵp Tasg a nodwyd y canlynol yn neilltuol:

Bu newid diweddar i'r modd y mae'r Brifysgol yn ymateb i actifadu larymau tân yn awtomatig. Mae hyn yn dilyn cyhoeddiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru na fydd yn ymateb o 1 Ebrill 2015 i alwadau 999 yn ystod y dydd (gan unigolyn neu fusnes) sy'n adrodd am actifadu larwm tân oni bai y cadarnheir mai tân neu fater brys arall yw achos yr actifadu. Yn yr un modd, byddant yn ymateb i alwadau 999 gyda'r hwyr yn unig os yw'r alwad yn ymwneud ag eiddo preswyl neu fod tân wedi'i gadarnhau.

O ganlyniad i hyn mae pob Swyddog Diogelwch y Brifysgol wedi derbyn hyfforddiant wedi'i deilwra ar dechnegau a phrotocol Ymchwiliad Larwm Tân. Dyma grynodeb o'r dull gweithredu newydd i ymchwilio i dân:

- Ymchwilir i bob achos o actifadu larwm tân mewn man dibreswyl (academaidd neu weinyddol) ar yr ystâd gan Swyddogion Diogelwch sydd wedi derbyn hyfforddiant ac ni chaiff y mater ei adrodd i'r Gwasanaeth Tân (drwy 999) oni bai bod tân neu fwg yn cael ei gadarnhau.
- Ymchwilir i achosion o actifadu larymau tân mewn Neuaddau Preswyl rhwng 08:00 ac 20:00 o'r gloch gan y Staff Diogelwch.
- Gyda'r hwyr a thros nos (20:00-08:00) caiff unrhyw achos o actifadu larwm tân mewn

Neuadd Breswyl ei adrodd drwy 999 i'r Gwasanaeth Tân ac ni chaiff ei ymchwilio'n fewnol.

O ran defnyddwyr pob adeilad Prifysgol nid yw'r drefn sydd i'w dilyn pan glywant larwm tân wedi newid a rhaid i bawb adael yr adeilad ar unwaith.

Diolchodd y Cadeirydd i'r staff Diogelwch am eu cymorth yn cefnogi'r newid sylweddol hwn i'r dulliau gweithredu.

**466. DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU MAWR**

Nid oedd unrhyw eitemau i adrodd arnynt.

**467. GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH**

Mae'r eitem agenda hon wedi cael ei chyflwyno i gynnig gwybodaeth am waith y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch. Yn yr achos hwn, clustnodwyd yr eitem ar gyfer iechyd a diogelwch galwedigaethol a nodwyd y canlynol yn benodol:

i. Er mwyn helpu i sicrhau bod cefnogaeth briodol yn cael ei chynnig, byddir yn ymgynghori â rhanddeiliaid unwaith eto a chaiff cynlluniau a systemau eu hadolygu yn ôl yr angen.

ii. Er mwyn ceisio deall y cynnydd cyson yn y nifer o achosion o salwch tymor hir ers 2011 mae adolygiad o achosion a thueddiadau cenedlaethol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

iii. Bydd Gwiriadau Iechyd yn cael eu cynnig i grwpiau o staff ar raglen dreigl; byddant yn cynnig asesiadau iechyd sylfaenol ac yn rhoi cyfle i staff drafod eu hanghenion iechyd unigol. Bydd unrhyw wybodaeth a ganfyddir hefyd yn helpu i gyfeirio Agenda Iechyd y dyfodol.

iv. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau i hyrwyddo iechyd yn ystod y flwyddyn: Wythnos Byw'n Iach, sesiynau Tai Chi, Hunanamddiffyn a Dr Beic am ddim i staff a myfyrwyr.

v. Mae'r Brifysgol wedi ymaelodi â phroject Prifysgol Iach Llywodraeth Cymru. Mae'r project hefyd wedi ariannu 10 o staff i ddilyn cwrs hanner diwrnod Cymorth Cyntaf 'Ysgafn' Iechyd Meddwl.

vi. Cynhelir y fenter Teithio'r Byd i hyrwyddo iechyd a gweithgaredd unwaith eto, gyda thros 38 o Ysgolion / Adrannau a 150 o staff yn cymryd rhan ynddi.

vii. Mae system Hunan-asesu a hyfforddi ar-lein newydd y DSE wedi cael ei datblygu, sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd ar gyfer hyfforddiant a chadw cofnodion.

**468. EITEMAU GAN AELODAU'R PWYLLGOR**

Mae'r eitem agenda newydd hon wedi cael ei chynnwys i alluogi'r aelodau sy'n bresennol i godi pryderon penodol am iechyd a diogelwch. Nid oedd unrhyw eitemau i adrodd arnynt y tro hwn.

**469. UNRHYW FATER ARALL**

i. Yn dilyn yr adroddiad Diogelwch Offer Trydanol cafwyd ymholiad am safonau trydanol yng Ngholeg Bangor, Tsieina. Nodwyd bod hyn wedi cael ei ddal yn y dadansoddiad bwlch, a ymgymerwyd i nodi gwahaniaethau gweithredol rhwng Prifysgol Bangor a'r CSUFT, a byddant yn cael eu hystyried maes o law. **GWEITHREDU: Gwasanaethau IaD**